Adran Busnes, Ynni & Strategaeth Ddiwydiannol

# MAE'N RHAID GWEITHREDU NAWR

<<Company Name>>
<<Street Address Line 1>>
<<Street Address Line 2>>
<<Street Address Line 3>>
<<Street Address Line 4>
<<Town>>
<<County (including London)>>
<<Full Postcode>>

# YDYCH CHI'N BAROD AM REOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDA'R UE?

## Neges frys gan yr Ysgrifennydd Busnes

Dim ond ychydig **dros fis** sydd i fynd bellach tan ddiwedd y cyfnod pontio a bydd rheolau newydd i ddilyn o'r $1^{af}$ o Ionawr 2021 ymlaen. Fel yr Ysgrifennydd Busnes, rwy'n eich annog i **WEITHREDU NAWR** i osgoi ymyriadau i weithrediadau eich busnes pan ddaw'r cyfnod pontio i ben.

Fel busnes yn y sector cemegion, gallwch ddarganfod beth sydd angen i chi wneud wrth fynd at gov.uk/chemicals-2021. Y prif gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer hyn yw:

1. **Gwiriwch pa gamau gweithredu y mae angen i chi eu cymryd i gydymffurfio â REACH DU, REACH UE a rheoliadau cemegol eraill er mwyn parhau i gynhyrchu a rhoi cemegion ar farchnadoedd Prydain Fawr, Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd.**
   Gall eich busnes wynebu oedi, aflonyddwch neu gostau gweinyddol wrth fasnachu nwyddau rhwng y DU a'r UE os na fyddwch yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n rheoli cemegion o'r 1af o Ionawr 2021. Os ydych am osod cemegion ar farchnadoedd y Deyrnas Unedig Prydain Fawr, Gogledd Iwerddon a'r UE o'r 1af o Ionawr 2021, rhaid i chi wirio'r rheolau newydd ar: hse.gov.uk/brexit

2. **Gwiriwch beth yw'r rheolau newydd o ran mewnforio ac allforio nwyddau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Phrydain Fawr o'r $1^{af}$ o Ionawr 2021. Bydd rheolau gwahanol yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.**
   Gall eich busnes wynebu oediadau, aflonyddwch neu gostau gweinyddol os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau tollau newydd o'r $1^{af}$ o Ionawr 2021.

3. **Gwiriwch os bydd angen fisa neu drwydded waith i deithio i'r UE at ddibenion gwaith a gwneud cais amdanynt yn unol â hynny.**
   Mae'n bosib y byddwch yn wynebu oedi neu y gwrthodir eich gadael i mewn i wlad pan fyddwch yn teithio at ddibenion busnes os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion mewnfudo UE27 ar ôl yr $31^{ain}$ o Ragfyr 2020.



DARGANFYDDWCH BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD DRWY DDEFNYDDIO'R OFFERYN GWIRIO

GOV.UK/CHEMICALS-2021

- Gwiriwch
- Newidiwch
- Ewch

4. **Os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon, gwirio'r canllawiau diweddaraf.**

   Daw Protocol Gogledd Iwerddon i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio. Bydd yna ddarpariaethau arbennig a fydd yn berthnasol i Ogledd Iwerddon yn unig, felly os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r cyfarwyddyd diweddaraf yn: gov.uk/northern-ireland-trade

SGANIWCH I WRANDO
AR EIN GWEMINARAU

**GALL Y NEWIDIADAU GYMRYD MWY O AMSER I'W GWEITHREDU NAG YR YDYCH CHI'N MEDDWL, FELLY DECHREUWCH HEDDIW.**

Gwiriwch
Newidiwch
Ewch

Mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys webinarau i'ch arwain drwy'r newidiadau. Mae'r rhain ar gael i'w gwylio ar: **gov.uk/transition-webinars**. Dylech hefyd wirio gyda'ch cyflenwyr a'ch cwsmeriaid eu bod nhw hefyd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae hwn yn gyfnod heriol, ond mae'r cyfnod pontio yn dod i ben ar yr 31ain o Ragfyr 2020 ac **NI FYDD ESTYNIAD**. Oni bai eich bod yn gweithredu nawr, mae risg y bydd ymyriadau i weithrediadau eich busnes. Bydd y Llywodraeth yno i'ch helpu i gymryd mantais o'r nifer o gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil bod yn genedl fasnachu annibynnol.

Yn gywir,



**Yr Gwir Anh. Alok Sharma MP**
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

**MAE RHEOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDAG EWROP YN DECHRAU AR 01 INOAW 2021**

MAE CAMAU SYDD ANGEN I'CH BUSNES EU CYMRYD NAWR AR GOV.UK/CHEMICALS-2021